

Mae'r alwad am breswylfeydd Magnetig 2 ar agor o ddydd Llun 10 Gorffennaf hyd hanner nos, nos Fawrth 29 Awst 2023.

Menter ar y cyd rhwng Ffrainc a Phrydain yw Magnetig sy'n dod ag wyth sefydliad at ei gilydd i greu rhaglen newydd o breswylfeydd i artistiaid o wyth wythnos yr un: pedair yn Ffrainc - CAPC yn Bordeaux; FRAC Llydaw yn Roazhon/Rennes; FRAC Grand Large yn Dunkirk; Villa Arson yn Nice - a phedair ym Mhrydain – Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth; Canolfan Gelfyddydol Wysing yn Lloegr; Stiwdios Celf Flax yng Ngogledd Iwerddon; Parc Cove yn yr Alban.

Bydd Magnetig yn graddol adeiladu rhwydwaith cynyddol o breswylfeydd partner gyda chydymrwymiadau a chydwerthoedd.

Eleni bydd rhaglen Magnetig 2 yn gefeillio!

Beth mae gefeillio'n ei olygu?

Mae pob preswylfa yn digwydd mewn cysylltiad gefeillio rhwng un rhanbarth yn Ffrainc a chenedl ym Mhrydain. Gwahoddir artistiaid o bob un o'r pedwar rhanbarth yn Ffrainc i wneud cais am breswylfa yn y genedl a efeillir â'u rhanbarth ym Mhrydain. Gwahoddir artistiaid o bob gwlad ym Mhrydain i wneud cais am breswylfa yn y rhanbarth a efeillir â'u cenedl yn Ffrainc.

Dyma efeilliaid Magnetig 2:

CAPC, Bordeaux, Nouvelle-Aquitaine / Canolfan Gelfyddydol Wysing, Caergrawnt, Lloegr:

- Mae preswylfa CAPC yn Bordeaux yn agored i artistiaid sydd yn Lloegr
- Mae preswylfa Canolfan Gelfyddydol Wysing yn Lloegr yn agored i artistiaid sydd yn Nouvelle-Aquitaine

FRAC Grand Large, Dunkirk, Hauts-de-France / Stiwdios Celf Flax, Belffast, Gogledd Iwerddon:

- Mae preswylfa FRAC Grand Large yn agored i artistiaid sydd yng Ngogledd Iwerddon
- Mae preswylfa Stiwdios Celf Flax yn agored i artistiaid yn Hauts-de-France

Villa Arson, Nice, Provence-Alpes-Côte d'Azur / Parc Cove, Helensburgh, yr Alban:

- Mae preswylfa Villa Arson yn agored i artistiaid yn yr Alban
- Mae preswylfa Parc Cove yn agored i artistiaid yn Provence-Alpes-Côte d'Azur

FRAC Llydaw, Roazhon/Rennes / Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth:

- Mae preswylfa FRAC Llydaw yn agored i artistiaid sydd yng Nghymru
- Mae preswylfa Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn agored i artistiaid sydd yn Llydaw

Mae gan breswylfeydd Magnetig sawl cryfder:

- Materion cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wrth wraidd y rhaglen. Mae'r preswylfeydd yn digwydd mewn cyd-destunau penodol – daearyddol, hanesyddol, cymdeithasol, artistig ac ati - lle mae artistiaid yn ymateb iddynt ym mhob preswylfa
- Mae pob artist yn derbyn ffi fisol o £2,150 / 2 500€
- Mae pob artist yn elwa o fentora curadurol gan dîm ei leoliad preswyl
- Mae pob preswylfa wedi'i theilwra mewn trafodaeth gyda thîm curadurol y sefydliad
- Mae pob preswylfa yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio i'r artist yn yr amgylchedd artistig a diwylliannol drwy gydol ei arhosiad
- Mae artistiaid yn cael llety a lle i weithio

Sgrolwch i lawr i ddarganfod yr 8 sefydliad sy'n cynnig preswylfeydd.